
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Nodyn Briffio 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru




## CEFNDIR ADUS

Creu proses adolygu sengl lle bo galw am ddull amlasiantaeth. Bydd y broses yn ymgorffori’r prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

## Y CYNNYDD HYD YMA

- Mae'r Canllawiau Statudol gydag Adran Gyfreithiol Llywodraeth Cymru i'w gwirio yn derfynol.
- Mae peilot ADUS (Arf Ymosodol) ar y gweill. Mae'r cyfnod peilot cymwys wedi dod i ben gydag 1 adolygiad yng Nghwm Taf ac 1 yn aros am benderfyniad yng Nghaerdydd.
- Anfonwyd llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at Weinidog y Swyddfa Gartref i ddefnyddio prosesau ADUS at ddibenion sicrhau ansawdd yn hytrach na Phanel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer ADUS sy'n gysylltiedig â dynladdiad domestig.
- Cyflwynwyd adroddiad i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar opsiynau ariannu ar gyfer Adolygwyr/Cadeiryddion

## Y CAMAU NESAF

- Mae'r agweddau diogelu data yn cael sylw mewn perthynas â sylwadau a gafwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Mae newidiadau bellach yn cael eu hystyried i Gweithio Gyda'n Gilydd, Cyfrol 1.

## DYSGU GAN ERAILL

- Bydd yr hyn a ddysgwyd o gynllun peilot ADUS Caerdydd (Iechyd Meddwl/Domestig) yn cael ei nodi i benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau i'r Canllawiau Statudol cyn iddo gael ei gwblhau.

  PDF
  DAC Health Webinar Slide Deck.pdf

- Mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cynnal nifer o Weminarau, mae'r ddolen uchod ar gyfer un ar Iechyd Corfforol/Meddyliol a digwyddiadau Domestig yn benodol.

## GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD

- Mae'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd yn parhau i gwrdd er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen ar y broses ymgysylltu. Cytunwyd y dylid creu siart llif dangosol i ddangos y pwyntiau ymgysylltu allweddol

## DIWEDDARIAD AR STORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae gwaith wedi dechrau ar baratoi proses Gofrestru Defnyddwyr Storfa Ddiogelu Cymru gan gynnwys nodi enw parth a mynd i'r afael â materion hygyrchedd

## DIWEDDARIAD RHAGLEN HYFFORDDIANT ADUS

- Cyflwynwyd y sesiwn beilot gyntaf ar gyfer aelodau'r Panel ar 19 Chwefror gyda hyfforddiant i Gadeiryddion ac Adolygwyr yn cael ei gyflwyno ar 7 ac 8 Mawrth 2024. Unwaith y bydd y sesiynau peilot wedi'u cwblhau a'u hadolygu, bydd hyfforddiant llawn yn cael ei drefnu i'w gyflwyno rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024.
- Cyflwynwch enwebiadau i'w rhoi ar y rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy er mwyn derbyn hyfforddiant.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**